| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Rhagfyr 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi dau Gynghorydd Cymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | Cadarnhau Enwebiadau Cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned ar y Pwyllgor Safonau |

**CEFNDIR**

1. Dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006), rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau ac arno ddim mwy na 9 aelod. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau hynny fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Ar hyn o bryd, mae 5 o aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau (gan gynnwys un swydd wag achlysurol), 2 o gynghorwyr cymuned (mae'r ddwy sedd yn wag) a dau o gynghorwyr sir (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor.

3. Rhaid i aelodau'r Cynghorau Cymuned gael eu henwebu gan y cynghorau cymuned ar y cyd a rhaid i'r Cyngor gadarnhau eu penodiad.

**SEDDI GWAG AR GYFER CYNGHORWYR CYMUNED**

4. Mae'r Pwyllgor Safonau'n cynnwys dau o gynghorwyr cymuned sy'n cymryd rhan ym musnes cyffredinol y Pwyllgor ond sy'n delio gyda chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig pan mae wnelo'r materion hynny â chynghorau cymuned yn unig.

5. Rhaid i aelodau'r cynghorau cymuned gael eu henwebu gan yr holl gynghorau cymuned ar y cyd ar ôl pob etholiad llywodraeth leol (neu os bydd y naill neu'r llall yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd cymuned). Mae modd i aelodau cynghorau cymuned gael eu hailbenodi i'r Pwyllgor Safonau ar yr amod bod y cynghorau cymuned yn eu henwebu eto ar y cyd.

6. Ar 31 Mai 2017, ysgrifennodd y Swyddog Monitro at glercod pob cyngor cymuned yn gofyn am enwebiadau erbyn 31 Gorffennaf 2017. Erbyn y dyddiad cau, roedd saith o

enwebiadau wedi dod i law ac ar 4 Awst 2017, anfonwyd pleidlais bost at yr holl gynghorau cymuned yn gofyn i bob un ohonynt ddewis hyd at ddau ymgeisydd ac anfon y papur pleidleisio yn ôl i'r Swyddog Monitro erbyn 31 Hydref 2017 fan bellaf. Erbyn y dyddiad cau, roedd 24 o gynghorau cymuned wedi ymateb a 45 o bleidleisiau wedi dod i law. Ymatebodd un cyngor cymuned heb bleidleisio o gwbl a chafwyd un pleidlais yn unig gan gyngor arall. Cafodd y broses a ddilynwyd ei chymeradwyo gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 ac ar 15 Tachwedd 2017, rhoes y Swyddog Monitro wybod i glercod yr holl gynghorau cymuned am ganlyniad y bleidlais gan gadarnhau mai'r ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:-

- **Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

- **Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

7. Yn yr amgylchiadau, mae angen i'r Cyngor Sir yn awr gymeradwyo penodi'r cynghorwyr hyn fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes byddant yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorwyr cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Cadarnhau enwebiadau'r cynghorau cymuned ar y cyd drwy benodi'r cynghorwyr cymuned isod yn aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau a hynny ar unwaith:-

- **Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

- **Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes y byddant yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o gyngor cymuned; p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.